Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Bwletin GwE

## Cwricwlwm i Gymru 2022

### Gweithdai Maes Dysgu a Phrofiad

Ar ran Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnal sesiynau i ysgolion y rhanbarth ar bob Maes Dysgu a Phrofiad ym mis Mehefin. Er mwyn rhoi digonedd o gyfleoedd i ysgolion i dderbyn gwybodaeth am bob MDaPh rydym yn cynnal 3 sesiwn yn ystod y dydd a bydd pob sesiwn yn parhau am 2 awr, (9-11am, 1pm-3pm a 4pm-5.30yp) mewn nifer o leoliadau yn rhanbarthol yn ystod Mehefin. Cynhelir 2 weithdy MDaPh ar yr un pryd o fewn un sesiwn, felly bydd rhaid dewis mynychu un o'r rhain yn ystod sesiwn [e.e. naill ai Ieithoedd **NEU** Iechyd a Lles]. Mae'r gweithdai hyn yn agored i unrhyw aelod o staff. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i gofrestru.

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

| HYFFORDDIANT | DYDDIAD | LLEOLIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|
| Gweithdy rhannu gwybodaeth – GDD Rhanbarthol i Blant mewn Gofal 2019-20 [Wrecsam] | 23/05/2019 | Ysgol Gynradd Gwenfro, Wrecsam | Dwyieithog |
| Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Cymraeg – Plas Menai] | 07/06/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Cymraeg - Ynys Môn] | 10/06/2019 | Canolfan Conwy, Llanfairpwll | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Saes - Wrecsam] | 10/06/2019 | Parc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn Mawr | Saesneg |
| Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Saesneg, OpTIC, Llanelwy] | 10/06/2019 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD - Cym - Ynys Môn] | 10/06/2019 | Canolfan Conwy, Llanfairpwll | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD -Saes - Wrecsam] | 10/06/2019 | Parc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn Mawr | Saesneg |
| 3C Ymsefydlu i ANG [Llanelwy] | 11/06/2019 | OpTIC, Llanelwy | Dwyieithog |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Cymraeg - Bodelwyddan] | 11/06/2019 | Faenol Fawr, Bodelwyddan | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Saesneg - Loggerheads] | 11/06/2019 | Parc Gwledig Loggerheads, Loggerheads | Saesneg |
| Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Saesneg - Yr Wyddgrug] | 11/06/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD - Cym - Bodelwyddan] | 11/06/2019 | Faenol Fawr, Bodelwyddan | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD -Saes - Loggerheads] | 11/06/2019 | Parc Gwledig Loggerheads, Loggerheads | Saesneg |
| 3C Ymsefydlu i ANG [Plas Menai] | 12/06/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Saesneg - Bodelwyddan] | 12/06/2019 | Faenol Fawr, Bodelwyddan | Saesneg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD - Cym - Loggerheads] | 12/06/2019 | Parc Gwledig Loggerheads, Loggerheads | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD - Saes - Bodelwyddan] | 12/06/2019 | Faenol Fawr, Bodelwyddan | Saesneg |
| 3C Ymsefydlu i ANG [Wrecsam] | 13/06/2019 | Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam | Dwyieithog |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [Athrawon - Cymraeg - Plas Tan y Bwlch] | 13/06/2019 | Plas Tan y Bwlch, Maentwrog | Cymraeg |
| Datblygu creadigrwydd drwy addysg awyr agored [CD - Cymraeg - Plas Tan y Bwlch] | 13/06/2019 | Plas Tan y Bwlch, Maentwrog | Cymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Google – Camau Cyntaf gyda G-Suite [Cymraeg - Swyddfeydd Cyngor Conwy] | 17/06/2019 | Swyddfa Cyngor Conwy, Coed Pella | Cymraeg |
| 3U Ymsefydlu i ANG [Llanelwy] | 18/06/2019 | OpTIC, Llanelwy | Dwyieithog |
| 3U Ymsefydlu i ANG [Yr Wyddgrug] | 20/06/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Trin Data yng Nghyfnod Allweddol 2 [Cymraeg - Plas Menai] | 20/06/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| 3U Ymsefydlu i ANG [Plas Menai] | 21/06/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Trin Data yng Nghyfnod Allweddol 2 [Saesneg - Yr Wyddgrug] | 21/06/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Gweithdy ADY efo Mike Gershon [Yr Wyddgrug] | 25/06/2019 | Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Gwyddoniaeth (Uwchradd) - Addysgu Tuag yn Ôl | 25/06/2019 | Venue Cymru, Llandudno | Dwyieithog |
| Gweithdy ADY efo Mike Gershon [Llanelwy] | 26/06/2019 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Gweithdy ADY efo Mike Gershon [Glasdir, Llanrwst] | 27/06/2019 | Glasdir, Llanrwst | Saesneg |
| Cyfarfod Tymor yr Haf Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd | 28/06/2019 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | Dwyieithog |
| Google – Camau Cyntaf gyda G-Suite [Saesneg- Linden House] | 28/06/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Cymraeg, OpTIC, Llanelwy] | 01/07/2019 | OpTIC, Llanelwy | Cymraeg |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - GWYNEDD / MÔN | 02/07/2019 | Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - Sir y Fflint / Wrecsam | 02/07/2019 | Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Bioleg - CONWY / DINBYCH | 02/07/2019 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | Dwyieithog |
| Google for Education – Symud Ymlaen gyda G-Suite [Saesneg - Linden House, Yr Wyddgrug] | 02/07/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Bioleg - GWYNEDD / MÔN | 03/07/2019 | Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - SIR Y FFLINT / WRECSAM | 03/07/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - CONWY / DINBYCH | 03/07/2019 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - GWYNEDD / MON | 04/07/2019 | Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Bioleg - SIR Y FFLINT A WRECSAM | 04/07/2019 | Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - CONWY A DINBYCH | 04/07/2019 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | Dwyieithog |
| Cynhadledd Haf ITM Dyfodol Byd-eang | 12/07/2019 | Venue Cymru, Llandudno | Saesneg |

# Rhaglenni Proffesiynol

## Sesiynau Gwybodaeth CALU

Cynhelir sesiynau gwybodaeth am y Cynllun CALU ar gyfer Cymorthyddion Dysgu a'u Penaethiaid / Rheolwyr ym mis Mehefin. Mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r sesiynau a restrir ar ein gwefan. **Os ydych yn dymuno ymgeisio i fod yn rhan o Garfan 1 CALU 2019-2020, mae'r pecyn cais i'w gael ar ein gwefan.** Cysylltwch a calu@gwegogledd.cymru neu 01286 679976 am ragor o wybodaeth.

## Sesiwn Wybodaeth CPCP Ychwanegol

Dydd Iau, 13 Mehefin 2019
4:00yp – 5:00yp
Glasdir, Llanrwst

# Cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen [Mai 2019]

**[AR GYFER ARWEINWYR, ATHRAWON A CHYMORTHYDDION Y CYFNOD SYLFAEN]**

Yn ystod y cyfarfodydd trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer dda'.

**Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth.

**NID OES ANGEN COFRESTRU AR GYFER Y CYFARFODYDD HYN. GALL STAFF FYNYCHU UNRHYW LEOLIAD**

# Prosiect Ymchwil Gweithredol Rhanbarthol Asesu Ffurfiannol – GwE a Shirley Clarke



## COFRESTRU AR GYFER HAEN 3 AR AGOR

Gwahoddir holl ysgolion y rhanbarth na fu eisoes yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn i ymuno yn Haen 3 fydd yn digwydd dros y flwyddyn addysgol 2019-2020. **Cofrestrwch drwy G6 erbyn 12 Mehefin 2019.**

***Darllenwch yr wybodaeth am y prosiect ar gyfer Haen 3 2019-2020 cyn cofrestru os gwelwch yn dda – mae gwybodaeth bwysig yma.***

# Hyfforddiant Gwahaniaethu efo Mike Gershon

Gweithdy ADY efo Mike Gershon i gydlynwyr ADY. Mae cyfle i chi fynychu un o'r tri sesiwn isod:

| | |
|---|---|
| 25/06/2019 | Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug |
| 26/06/2019 | Canolfan yr OpTIC, Llanelwy |
| 27/06/2019 | Glasdir, Llanrwst |

Am rhagor o wybodaeth **cliciwch yma**.

**COFRESTRWCH DRWY G6.**





# Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru ★NEWYDD★

Mae enillwyr 2019 wedi eu cyhoeddi yn dilyn seremoni wobrwyo yn Neuadd Soughton, Sir y Fflint nos Sul, 19 Mai 2019.

***LLONGYFARCHIADAU** i'r isod ar gyrraedd y brig***






# Disgyblion Mwy Abl a Thalentog yng Nghymru

★NEWYDD★

Pa ddarpariaeth sydd gennych ar waith ar gyfer eich disgyblion mwy galluog a thalentog? Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu ysgolion i fyfyrio ar y ddarpariaeth bresennol wrth i ni baratoi i symud i gwricwlwm newydd. Dyma'r cyntaf o gyfres o ddogfennau cyfarwyddyd i'ch cefnogi.
Darllenwch ac anfonwch ymlaen at y staff priodol. Bydd posteri A3 yn dilyn i'w harddangos yn yr ysgol.

Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

# Grant Datblygu Disgyblion a Phlant Mewn Gofal

## Ceisiadau GDD – Plant Mewn Gofal

Yn dilyn cyfres o weithdai rhannu gwybodaeth am GDD Plant Mewn Gofal 2019/20 ar draws y rhanbarth, gweler linc ar gyfer gwneud ceisiadau a derbyn gwybodaeth bellach am y broses isod. Cofiwch mai'r dyddiad cau cychwynnol yw **Dydd Gwener, 24 Mai 2019**. Pob cais ac ymholiad i'w anfon at CeisiadauGDD@gwegogledd.cymru

**Ffurflen Gais Grant Datblygu Disgyblion 2019-20** **Canllawiau'r grant PMG – GwE 2019-20** **Mesur Effaith ac Arfarnu – GwE 2019-20**

## Adnodd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Cymru

Dilynwch y **ddolen hon** am wybodaeth i sefydliadau addysg am adnoddau/gwybodaeth defnyddiol ar gyfer cefnogi Plant Mewn Gofal.

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

***Gweler isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:***

## Swydd - Swyddog Prosiect: Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dymuno penodi unigolyn cymwys, trefnus, a chreadigol i chwarae rhan arweiniol i ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Manylion llawn ar gael **yma**.
**DYDDIAD CAU CEISIADAU: 23 MAI 2019**

## Hyfforddiant 'Breathe First' gyda Mike Armiger

Cynhelir hyfforddiant 'Breathe First' gyda Mike Armiger yn Ysgol Maesglas ar 5 a 6 Mehefin.
Cysylltwch â'r ysgol ar ghmail@hwbmail.net i gofrestru.
Rhagor o fanylion ar gael **yma**.

## Ymgynghoriad a Diweddariad Alps ar gyfer Rheolwyr Data Ysgolion

**DYDD MAWRTH, 11 MEHEFIN 2019 – 1:30YP-3:30YP – SWYDDFA GWE, BRYN EIRIAS**
**Cliciwch yma** i gofrestru.

## Diwrnod Agored Mantell yr Arbenigwr

**DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019 - YSGOL CAE'R NANT, CEI CONNAH**
Ceir rhagor o fanylion **yma**.
Mae llefydd yn brin, a dylid cadw lle drwy gysylltu â Karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk

## Sesiwn Aml-ddisgyblaethol Gogledd Cymru ★NEWYDD★

**DYDD IAU, 13 MEHEFIN 2019 – 2:00PM – 4:00PM – SIAMBR Y CYNGOR, PRIFYSGOL BANGOR**
**Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth [poster Saesneg yn unig].

## Cystadleuaeth Datblygu Cynnyrch

Mae Arloesi Bwyd Cymru yn gwahodd disgyblion 11-16 oed i greu cynnyrch bwyd a diod newydd yng Nghymru i gael y cyfle i ennill iPad. **Ewch ati i gystadlu nawr!**
**DYDDIAD CAU: 14 MEHEFIN 2019**

## Cynhadledd Gofalwyr: Grymuso Gofalwyr mewn Addysg a Gwaith



**DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2019 – NEUADD REICHEL, SAFLE FFRIDDOEDD, BANGOR, LL57 2TW**
I nodi Wythnos Gofalwyr 2019, mae Canolfan Ehangu Mynediad Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Phartneriaeth Ymestyn yn Ehangach yn cydweithio i gyflwyno cynhadledd undydd yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr mewn addysg a gwaith. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i gofrestru.

## Digwyddiadau gan Techniquest:

**O'r Cwmwl i'r Tegell**
**6 MEHEFIN 2019 – CANOLFAN DŴR GWYN CENEDLAETHOL**
**Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

**Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Gwyddoniaeth**
**17 A 18 MEHEFIN 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO**
**Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

**Cynhadledd Athrawon Cemeg a Thechnegwyr**
**26 MEHEFIN 2019 – PRIFYSGOL BANGOR**
Cliciwch yma am ragor o fanylion.

# Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

## Gwerslyfrau Adolygu – Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn derbyn nifer o ymholiadau ynglŷn â llyfrau adolygu TGAU a Safon Uwch ar draws yr holl bynciau, felly mae wedi creu'r taflenni isod er mwyn i athrawon a rhieni weld yn union beth sydd ar gael. Maent yn llwyr sylweddoli bod rhain yn hwyr ar gyfer yr arholiadau eleni, ond yn berffaith er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.
Maent hefyd yn awyddus iawn i ymweld â phob ysgol neu ddod i gysylltiad ag athrawon pob ysgol. Dymunant i chi roi gwybod os oes unrhyw gwrs neu gyfarfod y gallant fod yn rhan ohono a dod ag arddangosfa o lyfrau

**Manylion Cyswllt** **Llyfrau Adolygu TGAU** **Llyfrau Adolygu Safon Uwch**

## Y Cliciadur



Mae'r fersiwn diweddaraf o Y Cliciadur a'r fersiwn Saesneg ohono o'r enw 'Clic-It Cymru' ar gael ar Hwb.
Cliciwch yma am **gopi**.

## Adnodd newydd sbon ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Mae'r adnodd newydd sbon hwn yn addas i'w gyflwyno fel pwnc galwedigaethol annibynnol ac mae'n berffaith ar gyfer dysgwyr sydd arnynt angen cymorth ychwanegol i ddatblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd pwysig.
Ceir rhagor o fanylion **yma**.




**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

**GwEGogledd.Cymru**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**

**Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â** bwletin@gwegogledd.cymru **yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.**